| | |
|---|---|
| **Pwyllgor :** | **Pwyllgor Safonau** |
| **Dyddiad :** | **14 Ebrill 2008** |
| **Teitl :** | **Cod Ymddygiad Enghreifftiol Newydd i Aelodau** |
| **Awdur :** | **Swyddog Monitro** |

**Cefndir**

1. Cyflwynodd y Cynulliad Cenedlaethol y Cod Ymddygiad presennol i aelodau yn 2001, ond ymrwymodd i'w adolygu yng ngoleuni profiad llywodraeth leol o'i weithredu.

2. Sefydlwyd gweithgor aml-asiantaeth yn 2004 i ymgymryd â'r adolygiad ac i baratoi cod drafft newydd. Bu'r cod drafft yn destun ymgynghoriad yn 2005, ac ystyriwyd ef gan y Pwyllgor hwn yn ei gyfarfod ar 7 Gorffennaf y flwyddyn honno.

3. Yn dilyn yr ymgynghoriad yma, paratôdd y gweithgor god drafft pellach a bydd aelodau yn cofio ystyried y drafft yma yn ei gyfarfod diwethaf ym mis Hydref llynedd.

4. Erbyn hyn mae'r gorchymyn sy'n cyflwyno'r cod newydd wedi ei wneud a bydd yn dod i rym ar 18 Ebrill 2008. Bydd gan y Cyngor (a phob cyngor tref a chymuned) chwe mis i fabwysiadu'r cod newydd.

5. Atodir copi o'r Cod fel **Atodiad** i'r adroddiad hwn. Dylid nodi fod rhaid i bob cyngor fabwysiadu holl ddarpariaethau'r cod. Gellid ychwanegu darpariaeth yn lleol sy'n mynd y tu hwnt i'r gofynion statudol ond ni ellir eithrio unrhyw ddarpariaeth orfodol. Awgrymaf y dylid mabwysiadu'r cod yn ei ffurf statudol, o leiaf ar y cychwyn.

6. Bydd rhaid i'r Cyngor Llawn fabwysiadu'r cod newydd a bwriedir cyflwyno'r cod i gyfarfod cyntaf y Cyngor newydd ar 22 Mai 2008.

**Argymhelliad**

5. (a) Cyflwynir y Cod Enghreifftiol er gwybodaeth i'r Pwyllgor,

(b) Y dylid argymell i'r Cyngor fabwysiadu'r Cod Enghreifftiol

(c) Y dylid argymell i'r Cyngor bennu £25 fel y gwerth ar gyfer paragraff 17 o'r cod (cofrestru rhoddion a lletygarwch)

(ch) Gofynnir i'r Pwyllgor ystyried y camau ar gyfer cyflwyno hyfforddiant ar y cod newydd.